| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 20 HYDREF 2011 |
| **TEITL** | AWDURDODI MWYNDERAU CAFFI AR Y BRIFFORDD |
| **PWRPAS** | I YSTYRIED TREFNIADAU PRESENNOL Y CYNGOR AR GYFER CODI FFI AM DRWYDDEDAU I DDARPARU CYFLEUSTERAU CAFFI AR Y BRIFFORDD |
| **ADRODDIAD GAN** | ALED DAVIES - PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Y CYNGHORYDD W GARETH ROBERTS, UWCH ARWEINYDD PORTFFOLIO AMGYLCHEDD |

**1. Cefndir**

1.1 Dan Ddeddf Priffyrdd 1980, mae gan Gyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Priffyrdd, ddyletswydd statudol i leihau unrhyw niwsans a chael gwared ar unrhyw rwystrau anghyfreithlon sy'n ymyrryd â defnydd rhwydd a mwynhad o'r briffordd. Ystyrir bod gosod cyfleusterau ar gyfer caffis a roddir ar y briffordd heb awdurdod neu drwydded yn rhwystr ac felly yn drosedd dan wahanol ddarpariaethau'r Ddeddf.

**2. Polisi – Cyfleusterau Caffis ar y Briffordd**

2.1 Ym mis Mehefin 2006, penderfynodd yr Awdurdod weithredu polisi o ganiatáu trwyddedau i ddarparu cyfleusterau caffis ar y palmant. Mae hyn yn caniatáu i'r Awdurdod reoleiddio a rheoli lleoli byrddau a chadeiriau ar y briffordd yn unol â'i ddyletswydd statudol. Bwriad y cynllun trwyddedu yw taro cydbwysedd rhwng gwarchod hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau'r briffordd gan hefyd ganiatáu i fusnesau weithredu cyfleusterau sy'n cefnogi cyflogaeth leol, gwella mwynderau gweledol a hyfywdra canol trefi.

2.2 Ceir cefnogaeth eang gan fudd-ddeiliaid i'r polisi hwn ac mae grwpiau mynediad wedi gwneud sylwadau bod yn rhaid i gyfleusterau gael eu trwyddedu a bod angen cymeryd mesurau i leddfu unrhyw rwystrau a achosir gan gyfleusterau caffis ar y palmant.

**3. Agwedd Trwyddedu**

3.1 Mae Adran 115E y Ddeddf Priffyrdd yn caniatáu i'r Cyngor awdurdodi a thrwyddedu cyfleusterau caffi ar y briffordd. Fodd bynnag, mae'r drefn yn un cymhleth ac mae gofyn ymgynghori'n helaeth yn cynnwys cael cymeradwyaeth eiddo eraill. Mae hyn yn rhoi baich gweinyddol ac arolygu sylweddol ar yr awdurdod priffyrdd lleol, sy'n cael ei waethygu ymhellach gan y ffaith nad yw nifer o fusnesau yn dymuno ymgeisio am drwyddedau palmant.

## 4. Costau Trwyddedu

4.1 Mae'r ffioedd cyfredol yn cynnwys ffi o £30.00 y flwyddyn am bob bwrdd a roddir ar y briffordd. Ni chodir tâl am unrhyw geisiadau sy'n cael eu gwrthod ac nid oes cynnydd wedi bod yn y ffioedd ers 2006. Cyfartaledd cost trwydded yng Ngwynedd yw £100.00 ar gyfer 2011/2012. Mae'r incwm blynyddol o'r broses trwyddedu yna tua £2,000. Pan fydd y drefn wedi ei gweithredu ar draws y Sir rhagamcan y bydd yr incwm tua £4,500 y flwyddyn.

4.2 Dylid ystyried y ffi fel cyfraniad tuag at gostau rhedeg y cynllun trwyddedu ac, fel arfer. Nid yw'n ddigon i dalu am y costau gweinyddu ac arolygu sydd ynghlwm â darparu trwydded.

## 5. Sefyllfa Drwyddedu Gyfredol

5.1 Ar hyn o bryd, ceir 27 o safleoedd trwyddedig ledled Gwynedd gyda 3 safle pellach dan ystyriaeth ac yn destun trefniadau ymgynghori. Nid yw 11 safle pellach wedi ymateb i lythyrau yn gwahodd ceisiadau am ganiatâd ac felly maent yn destun gorfodaeth.

5.2 Er mwyn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol, mae Adran Rheoleiddio'r Cyngor wedi cyhoeddi nifer o rybuddion gorfodaeth ac mae sawl achos yn awr dan ystyriaeth o gael eu herlyn gan eu bod yn achosi rhwystr anghyfreithlon o'r briffordd yn unol â pholisi'r Cyngor ar gyfer chael gwared ar gyfleusterau heb eu trwyddedu.

5.3 Dangosir y sefyllfa gyfredol yng nghyswllt safleoedd trwyddedig yn Atodlen A.

**<u>Adran 115 (Byrddau a Chadeiriau) – Ebrill 2011 i Ebrill 2012</u>**

**<u>Statws Ceisiadau, Safleoedd Trwyddedig Gweithredol, Yn Disgwyl Ymateb a Cheisiadau a Wrthodwyd</u>**

## Arfon – Cyfanswm Nifer y Safleoedd 29

| Trwydded Gyfredol (15) | Trwydded wedi Terfynu (4) | Cais dan ystyriaeth Trwydded i ddod (3) | Trwydded wedi'i Gwrthod (1) | Camau gorfodi posib i ddod, yn disgwyl ymateb (6) |
|---|---|---|---|---|
| *The Old Glan Bangor* | *Fu's Cantonese Caernarfon* | *Crumbs Salad Bar Bangor* | *Patrick's Bar Bangor* | *2 eiddo yng Nghaernarfon* |
| *Black Boy Inn Caernarfon* | *Subway Caernarfon* | *Babs Gwyn Caernarfon* | | *4 eiddo yn Bangor* |
| *Caffi Maes Safle 1 Caernarfon* | *Siop Hufen Iâ Melys Caernarfon* | *Y Tebot Bach, Caernarfon* | | |
| *Gwesty'r Castell, Caernarfon* | *The White Lion Bangor* | | | |
| *Caffi Maes Safle 2 Caernarfon* | | | | |
| *Y Pantri Cymraeg Caernarfon* | | | | |
| *Medi Caernarfon* | | | | |
| *Calley's Café Caernarfon* | | | | |
| *Costa Coffee Bangor* | | | | |
| *Morgan Lloyd Vaults Caernarfon* | | | | |
| *Every Day Caernarfon* | | | | |
| *The Honour Caernarfon* | | | | |
| *The Palace Vaults Caernarfon* | | | | |
| *The Hole in the Wall Caernarfon* | | | | |
| *Y Garddfon (Y Felinheli)* | | | | |

## Dwyfor – Cyfanswm Nifer y Safleoedd 12

| Trwydded Gyfredol (8) | Trwydded wedi Terfynu (0) | Cais dan ystyriaeth Trwydded i ddod (0) | Trwydded wedi'i Gwrthod (1) | Camau gorfodi posib i ddod, yn disgwyl ymateb (3) |
|---|---|---|---|---|
| *Nana's Piri Piri Pwllheli* | | | *Bistro Cuisine Pwllheli* | *1 eiddo ym Mhorthmadog* |
| *Portmeirion Porthmadog* | | | | *2 eiddo ym Mhwllheli* |
| *Royal Madoc Hotel Tremadog* | | | | |
| *Cadwaladers Porthmadog* | | | | |
| *Cadwaladers Porthmadog* | | | | |
| *The Mitre Hotel Pwllheli* | | | | |
| *The Grapevine Bistro Porthmadog* | | | | |
| *Y Bwtri Pwllheli* | | | | |

## Meirionnydd – Cyfanswm Nifer y Safleoedd 6

| Trwydded Gyfredol (4) | Trwydded wedi Terfynu (0) | Cais dan ystyriaeth Trwydded i ddod (0) | Trwydded wedi'i Gwrthod (0) | Camau gorfodi posib i ddod, yn disgwyl ymateb (2) |
|---|---|---|---|---|
| *Tal-Y-Don Hotel Abermaw* | | | | *2 eiddo yn Abermaw* |
| *The Captain's Table Abermaw* | | | | |
| *The Old Tea Rooms Abermaw* | | | | |
| *Browns Abermaw* | | | | |